# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU
# 27 GORFFENNAF 2017

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 27 Gorffennaf 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT:**
Cyfreithiwr, Arweinydd Tîm Trwyddedu, a’r Swyddog Pwyllgorau

Ymgeisydd

## 1. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

## 2. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:**

Eithrio’r wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan ei bod yn cael eu hystyried yn wybodaeth wedi’i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd Aelodau’r Is-bwyllgor a swyddogion y Cyngor. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys sut y byddai’r cais yn cael ei bennu.

## 3. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT / CERBYD HACNI (AR Y CYD)

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu'r adroddiad i ystyried cais ar gyfer Trwydded yrru Cerbyd Hurio Preifat/ Cerbyd Hacni (ar y cyd), wedi ei drwyddedu gan yr Awdurdod.

Eglurodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu fod y cais wedi gofyn am fanylion unrhyw euogfarnau blaenorol ac roedd yr ymgeisydd wedi datgelu euogfarn. Pan dderbyniwyd Datgeliad cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yr ymgeisydd, dangoswyd rhagor o euogfarnau. Atodwyd eglurhad ysgrifenedig o’r holl euogfarnau i’r adroddiad. Yn sgil natur yr euogfarnau, gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymddangos gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu i benderfynu a oedd yn unigolyn addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru ar y Cyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i roi eglurhad llawn o’i euogfarnau blaenorol a fanylwyd ar ddatgeliad cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cyfeiriodd yr ymgeisydd at yr eglurhad ysgrifenedig a atodwyd i'r adroddiad i ymdrin â'i euogfarnau a rhoddodd ragor o wybodaeth gefndirol ac eglurhad ar gyfer pob un o'r troseddau. Ymatebodd hefyd i'r cwestiynau a ofynnwyd ynghylch ei amgylchiadau personol a theuluol a'i gefndir cyflogaeth a chymerodd y cyfle i ddosbarthu tystiolaeth ategol i'r Panel.

Gofynnodd y Cyfreithiwr am eglurhad ynglŷn â pham bod yr ymgeisydd wedi methu datgelu'r holl euogfarnau ar y ffurflen gais am drwydded oedd ond yn cyfeirio at un euogfarn, er bod y ffurflen wedi gofyn am fanylion unrhyw droseddau. Eglurodd yr ymgeisydd ei fod wedi tybio yn anghywir mai dim ond yr euogfarn diweddaraf oedd yn berthnasol a bod yr euogfarnau blaenorol, a oedd yn dyddio yn ôl sawl blwyddyn, wedi eu treulio ac nad oedd angen eu datgelu. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn difaru cyflawni pob un o'i droseddau ac ail-bwysleisiodd eu bod wedi digwydd yn sgil ei amgylchiadau personol. Dywedodd ei fod wedi cyflawni rhai o'r troseddau yn ystod ei ieuenctid ac nad oedd wedi cael unrhyw euogfarnau ers sawl blwyddyn ers hynny.

Cwestiynodd y Cyfreithiwr yr ymgeisydd yn drwyadl ynghylch ei euogfarn diweddaraf a gofynnodd iddo roi eglurhad pellach ynghylch yr amgylchiadau a oedd wedi peri iddo gyflawni'r drosedd a'r ddedfryd roedd wedi ei chwblhau.

Pan ofynnwyd i'r ymgeisydd, ymatebodd gan ddweud ei fod yn ystyried ei hun yn unigolyn addas a phriodol i gael trwydded ac ail-bwysleisiodd mai camgymeriad anfwriadol oedd hepgor ei euogfarnau blaenorol ar ei ffurflen gais. Mewn ymateb i gais gan y Panel, darparodd yr ymgeisydd wybodaeth ar ei ragolygon cyflogaeth ar gyfer y dyfodol pe bai ei gais yn llwyddo.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon fod yr holl gwestiynau perthnasol wedi eu gofyn, gofynnodd i'r ymgeisydd a'r Arweinydd Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod tra'r oedd y panel yn penderfynu ar y cais.

## 3.1 <u>Penderfyniad am y Cais</u>

Wrth wneud penderfyniad am y cais, rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i ganllawiau'r Cyngor ar ymdrin ag euogfarnau a atodwyd i'r adroddiad. Wrth ystyried, mynegwyd pryderon am onestrwydd yr ymgeisydd gan nad oedd wedi datgelu ei holl euogfarnau. Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau pob achos a'r amser a oedd wedi mynd heibio ers ei euogfarn diweddaraf a theimlwyd fod yr ymgeisydd wedi rhoi cyfrif llawn a chredadwy o'i weithredoedd. Cytunodd y Panel bod yr ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/ Cerbyd Hacni (ar y cyd).

Gwahoddwyd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl a chafodd y cyfarfod ei ailymgynnull.

## 3.2 <u>Penderfyniad</u>

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr ymgeisydd fod yr Is-bwyllgor wedi penderfynu ei fod wedi rhoi cyfrif llawn a chredadwy o'i weithredoedd a'i euogfarnau blaenorol a'u bod wedi cytuno i gymeradwyo'r cais.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd) dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ac y dylid cymeradwyo'r Drwydded.

(Dechreuodd y gwrandawiad am 10.00am a daeth i ben am 10.45am)

**GWRANDAWIAD DAU**

**PARTÏON CYSYLLTIEDIG:**
Gweithredwr Cerbydau Hurio Preifat, a Phartner yr Ymgeisydd

Ymgeisydd

Cyn dechrau'r cyfarfod, eglurodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu fod Deiliad y Drwydded wedi gofyn i'r partïon cysylltiedig fod yn bresennol yn y cyfarfod. Gofynnodd y Cadeirydd i Ddeiliad y Drwydded a oedd yn dymuno i'r partïon cysylltiedig fod yn bresennol tra'r oedd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu yn ystod y cyfarfod. Cadarnhaodd Deiliad y Drwydded ei fod yn dymuno i bartïon cysylltiedig fod yn bresennol yn ystod y gwrandawiad a gofynnodd a fyddai modd i'w gyflogwr siarad ar ei ran os oedd angen.

Croesawodd y Cadeirydd Ddeiliad y Drwydded a'r Partïon Cysylltiedig a chyflwynodd Aelodau'r Is-bwyllgor a swyddogion y Cyngor.

Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys sut y byddai'r cais yn cael ei bennu.

**4. YMDDYGIAD GYRRWR CERBYD HURIO PREIFAT / CERBYD HACNI (AR Y CYD)**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu'r adroddiad i ystyried ymddygiad Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat/ Cerbyd Hacni (ar y cyd) ac i benderfynu a oedd yn parhau i fod yn berson addas a phriodol o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i barhau i ddal trwydded o'r fath.

Rhoddodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at un o wrandawiadau'r Is-bwyllgor a oedd wedi cael ei gynnal ar 3 Ebrill 2017. Nododd fod gwybodaeth wedi ei derbyn gan adran Galwedigaethau Hysbysadwy Heddlu Gogledd Cymru ar ôl yr Is-Bwyllgor, a oedd wedi ei datgelu at y diben o hysbysu'r Adran Drwyddedu am berygl posibl. Cyfeiriwyd y mater at yr Is-bwyllgor Trwyddedu gan fod y digwyddiad wedi digwydd cyn y gwrandawiad ar 3 Ebrill 2017 a theimlwyd y dylai'r Panel fod wedi cael cyfle i ystyried hyn yn y cyfarfod hwnnw.

Gofynnodd y Cadeirydd i Ddeiliad y Drwydded egluro amgylchiadau'r digwyddiad fel y manylwyd yn yr adroddiad. Eglurodd Deiliad y Drwydded fod honiad wedi ei wneud iddo ymddwyn yn amhriodol pan roedd wedi cludo teithiwr i'w chartref. Gwadodd yr honiad a dywedodd ei fod wedi "mynd allan o'i ffordd" i

ddarparu cymorth i'r teithiwr ac wedi ei helpu hi drwy gario ei bagiau siopa at y drws. Dywedodd Deiliad y Drwydded fod y gŵyn wedi ei synnu gan ei fod wedi bod yn gymdeithasol gyda'r cwsmer ond nad oedd wedi gwneud unrhyw sylwadau nac ystumiau personol tuag ati. Pan holwyd Deiliad y Drwydded gan y Cadeirydd, cadarnhaodd ei fod wedi rhoi "cusan ar foch" y cwsmer wrth iddo ffarwelio â hi wrth ddychwelyd i'w gerbyd ond dywedodd nad oedd wedi bwriadu ei phechu. Eglurodd ei fod yn ystyried ei weithred yn ymddygiad "cymdeithasol" arferol a dywedodd ei fod yn mwynhau ei swydd â chwrdd â phobl. Pan gafodd ei gwestiynu ymhellach, dywedodd Deiliad y Drwydded nad oedd yn adnabod y cwsmer ac nad oedd wedi cymryd "archeb" ganddi o'r blaen. Gwnaeth Deiliad y Drwydded gydnabod y gallai ei ymddygiad gael ei ystyried yn amhriodol. .

Cwestiynodd y Panel Ddeiliad y Drwydded a'r Gweithredwr Cerbydau Hurio Preifat ynghylch y camau oedd wedi eu cymryd gan Heddlu Gogledd Cymru ers hynny.

Gofynnodd y Cyfreithiwr i Ddeiliad y Drwydded egluro pam nad oedd wedi datgelu'r honiad yn y cyfarfod blaenorol. Cwestiynodd y Cyfreithiwr Ddeiliad y Drwydded ymhellach am ei weithredoedd pan roedd wedi mynd â'i gwsmer i'w chartref. Cadarnhaodd Deiliad y Drwydded a'r Gweithredwr Cerbydau Hurio Preifat, er fod y digwyddiad wedi digwydd cyn y gwrandawiad nad oedd yr honiad wedi ei hysbysu i'r naill na'r llall ohonynt tan ar ôl y gwrandawiad ar 3 Ebrill 2017. Pan gafodd ei holi, atebodd Deiliad y Drwydded gan ddweud ei fod yn ystyried ei hun yn berson addas a phriodol i ddal trwydded ac ail-bwysleisiodd ei fod yn mwynhau ei swydd a'i fod yn cynnig cymorth i'w gwsmeriaid os oedd angen a'i fod yn ymgysylltu â nhw mewn modd cymdeithasol.

Gofynnodd y Panel i Ddeiliad y Drwydded pam nad oedd wedi adrodd y digwyddiad i'w gyflogwr ar ôl iddo ddigwydd. Eglurodd Deiliad y Drwydded nad oedd yn ymwybodol ei fod wedi pechu ei gwsmer a dywedodd nad oedd unrhyw awgrym wedi bod, ar lafar nac fel arall, ganddi ar y pryd ei fod wedi ymddwyn yn amhriodol tuag ati. Dywedodd fod y cwsmer wedi diolch iddo am ei gymorth pan adawodd.

Caniataodd y Cadeirydd gyflogwr Deiliad y Drwydded (y Gweithredwr) i siarad ar ei ran. Siaradodd y Gweithredwr o blaid Deiliad y Drwydded a oedd wedi gweithio i'w fusnes ers sawl blwyddyn. Eglurodd y Gweithredwr ei fod wedi sicrhau fod ei yrwyr yn cynnal safonau da a bod gan ei fusnes enw da. Eglurodd ei fod wedi cymryd mesurau i sicrhau na fyddai'r digwyddiad yn cael ei ailadrodd ac na fyddai ei fusnes yn derbyn archebion gan y cwsmer yn y dyfodol.

Holodd y Cadeirydd y parti cysylltiedig arall a oedd yn bresennol a oedd hi'n credu fod Deiliad y Drwydded yn berson addas a phriodol i barhau i ddal trwydded o'r fath. Cadarnhaodd y parti cysylltiedig ei bod a dywedodd fod Deiliad y Drwydded yn berson diffuant, cymdeithasol a oedd yn mwynhau helpu ac ymgysylltu â'r gwsmeriaid.

Gofynnwyd i'r Arweinydd Tîm, Deiliad y Drwydded, a'r partïon cysylltiedig i adael y cyfarfod tra roedd y cais yn cael ei bennu.

## 4.1 Penderfyniad am y Cais

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r honiad a oedd wedi ei dderbyn a'r holl sylwadau a wnaed. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r holl wybodaeth a ddarparwyd i benderfynu a oedd Deiliad y Drwydded yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrrwr ar y Cyd.

Wrth ystyried y cais, yr ystyriaeth bwysicaf i'r Is-bwyllgor oedd gwarchod y cyhoedd ac roedd hyn yn flaenllaw wrth wneud penderfyniadau o'r natur hwn.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i benderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu mewn cyfarfod a oedd wedi ei gynnal ar 3 Ebrill 2017.

Ar ôl ystyried y gŵyn, penderfynodd yr Is-bwyllgor na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd a bod Deiliad y Drwydded yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Yrrwr ar y Cyd.

Gwahoddwyd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl a chafodd y cyfarfod ei ailymgynnull.

## 4.2 Penderfyniad

Dywedodd y Cadeirydd wrth Ddeiliad y Drwydded fod yr Is-bwyllgor wedi ystyried y gŵyn ac wedi penderfynu na fyddai camau pellach yn cael eu cymryd. Roedd yr Is-bwyllgor wedi penderfynu fod Deiliad y Drwydded yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrrwr ar y Cyd.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Deiliad y Drwydded yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd) dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Dechreuodd yr ail wrandawiad am 10.55am a daeth i ben am 11.55am.

..................................................

**Cadeirydd**